PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY 1872
1872 150 2022
Rhifyn 45 - Gorffennaf 2023




# Newyddion ABER

## Dathlu 150 - blwyddyn i'w chofio

Wrth i flwyddyn o ddigwyddiadau dathlu'r 150fed pen-blwydd ddirwyn i ben, yn ddiweddar croesawodd y Brifysgol gyn-fyfyrwyr o nifer fawr o adrannau yn ôl i Aber.

Cynhaliwyd Penwythnos yr Aduniad ym mis Mehefin a bu'n gyfle i ailgysylltu â hen gyfeillion, a dathlu canrif a hanner o gyflawniadau fel coleg Prifysgol cyntaf Cymru, yn ogystal â 130 mlynedd o Gymdeithas y Cyn-Fyfyrwyr.

Roedd y dref a'r campws yn llawn bwrlwm, ac fe gafwyd cyfle i edrych o gwmpas cyfleusterau newydd megis y Ganolfan Addysg Gofal Iechyd a'r Ganolfan Addysg Filfeddygol, clywed y diweddaraf am ailddatblygu'r Hen Goleg, mynd i ddigwyddiadau adrannol, mwynhau cinio pen-blwydd dathlu'r 150 a thaith gerdded ar hyd y Prom i gicio'r bar.

Yr aduniad oedd y diweddaraf mewn cyfres o ddigwyddiadau a gweithgareddau sydd wedi eu cynnal trwy gydol y flwyddyn ac wedi rhoi cyfle i ddathlu gyda'n myfyrwyr, staff, cyn-fyfyrwyr a'r gymuned leol sydd i gyd wedi chwarae rhan yn ffurfio'r Brifysgol.

Mae'r digwyddiadau blaenorol yn cynnwys dathliadau Diwrnod y Sylfaenwyr yn Aberystwyth, Caerdydd a Llundain; ymweliadau â de-ddwyrain Asia, Washington DC ac Efrog Newydd; derbyniad yn Nhŷ'r Arglwyddi; 'Gig Mawr' a ddathlodd dreftadaeth gerddorol y Brifysgol; a swper elusennol mewn partneriaeth â'r Scarlets.

Rydym hefyd wedi nodi'r garreg filltir hon o ben-blwydd trwy gyhoeddi'r gyfrol hardd Ceiniogau'r Werin, sy'n cyflwyno hanes y Brifysgol trwy gyfrwng 150 o wrthrychau diddorol. Mae copïau o'r llyfr i'w cael yn siopau Canolfan y Celfyddydau ac Undeb y Myfyrwyr ar y campws ac o siopau llyfrau'r stryd fawr.

Cyhoeddir Newyddion ABER gan y **Tîm Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus**, Prifysgol Aberystwyth.
**Ffôn:** 01970 622946 **E-bost:** cyfathrebu@aber.ac.uk

# Codi arian tuag at Elusen y Flwyddyn

## Mae staff Undeb y Myfyrwyr a Phrifysgol Aberystwyth wedi cwblhau Her Tri Chopa Cymru gan godi £5,800 tuag at Uned Cemotherapi Ysbyty Bronglais.

Cyn toriad gwawr ddydd Llun 15 Mai dechreuodd y criw o 21 o gerddwyr ar yr her o gwblhau'r daith gerdded 17 milltir mewn llai na 24 awr, gan gynnwys amser teithio.




Cyrhaeddwyd copa niwlog llaith ac oer yr Wyddfa mewn cwta ddwy awr a hanner ac erbyn amser cinio roedd y criw wedi cyrraedd copa heulog braf ond oer Cadair Idris, gyda'i olygfeydd godidog ar draws canolbarth Cymru.




Ac erbyn 8pm, yn heulwen diwedd dydd, cyrhaeddodd y tîm bwynt uchaf Bannau Brycheiniog, Pen y Fan, ar ôl dringo ychydig dros 6,000 o droedfeddi mewn 16 awr.

Gwnaeth y tîm o gerddwyr gryn argraff ar yr arweinwyr mynydd profiadol Paul Inch a Connaire Cann gyda'u hysbryd cydweithredol ar yr hyn a brofodd yn ddiwrnod di-dramgwydd, hwyliog a gwerth chweil.

Dywedodd Jean Jones, aelod staff ac un o drefnwyr y daith: "Dyna ddiwrnod gwych – llafurus a chyffrous i'r un graddau ac ar gyfer achos sydd mor bwysig. Rydyn ni i gyd yn adnabod pobl sydd wedi elwa o'r cyfleusterau ym Mronglais felly mae'n braf teimlo ein bod wedi gwneud ychydig o wahaniaeth trwy gwblhau'r her hon. Diolch i bawb a gymerodd ran, i'r rhai a'n cefnogodd ar y diwrnod ac i bawb sydd wedi cyfrannu at y codi arian."

Un a longyfarchodd y criw ar gwblhau'r her yw'r Athro Andrew Thomas o Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, sydd wedi derbyn triniaeth cemotherapi yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais.

Dywedodd Andrew: "Da iawn bawb. Rwy'n amlwg yn gwerthfawrogi'r achos yn fawr, er fy mod yn gwybod nad yw hyn yn ymwneud â mi. Ond mae cemo yn erchyll ac mae ni fydden yn licio meddwl am orfod teithio ar ei gyfer, a byddai'r holl gannoedd o bobl sy'n mynd drwy hyn yn Aber ar hyn o bryd yn cytuno. Mae mor bwysig cael yr uned ym Mronglais, ac maent yn dda iawn. Parch a gwerthfawrogiad aruthrol."



## Colofn yr Is-Ganghellor



Rwy'n hynod falch o fod yn ôl yn Aberystwyth ar ôl fy nhriniaeth feddygol ddiweddaraf. Oherwydd gofynion y driniaeth bu fy amserlen waith yn llawer anoddach nag arfer, ac fe hoffwn ddiolch i pawb sydd wedi cynorthwyo i gadw ein sefydliad i redeg yn esmwyth yn y cyfnod hwn. Hefyd rwy'n ddiolchgar ac yn hynod werthfawrogol o'r negeseuon personol niferus o gefnogaeth a gefais, yn enwedig ers i mi rannu'r newyddion ym mis Mai y byddaf yn ymddeol ddiwedd y flwyddyn galendr hon.

Mae'r drefn o benodi'r Is-Ganghellor nesaf wedi dechrau, ac rwyf yn benderfynol y caiff yr awenau eu trosglwyddo'n ddi-ffwdan.  Rwy'n siŵr y bydd Cadeirydd y Cyngor yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am yr amserlen a'r trefniadau cyn gynted â phosibl.

Er fy mod yn falch o'r cyflawniadau dros y chwe blynedd diwethaf, mae llawer i'w wneud o hyd ac allwn ni ddim fforddio colli momentwm.  Yn allanol, mae materion yn parhau i fod yn heriol. Mae cymaint yr wyf eisiau'i gyflawni yn ystod fy chwe mis olaf yn y swydd, ac fe hoffwn rannu â chi rai o fy mlaenoriaethau am y cyfnod.

Fydd hi ddim yn eich synnu fod y prif sylw ar hyn o bryd ar sicrhau bod nifer dda o fyfyrwyr yn cael eu derbyn ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd. Wrth dargedu twf pellach yn nifer ein myfyrwyr, mae angen i ni sicrhau bod popeth yn ei le i roi cefnogaeth briodol i'r myfyrwyr hyn. Lle gwelwn nifer ychwanegol o newydd-ddyfodiaid o dramor, rydym hefyd yn ystyried pa ddarpariaethau ychwanegol y dylem eu rhoi ar waith. Mae cynnydd yn nifer y myfyrwyr wastad yn newyddion da, ac mae'r effaith gadarnhaol ar ein sefyllfa ariannol yn golygu, er bod cyllid yn dal yn dynn, ein bod yn symud ymlaen. Rhaid i ni barhau i gynyddu'r arian dros ben bob blwyddyn wrth i ni geisio gwneud buddsoddiadau pwysig yn ein gweithrediadau a'n hystâd.  Mae hyn yn cynnwys, wrth gwrs, ein gwaith cyson i leddfu pwysau llwyth gwaith lle gwelir bod hynny'n gwasgu'n ormodol.

Rydym eisoes yn gweithio ar nifer o feysydd academaidd a fydd yn rhoi cyfle i'n Prifysgol dyfu. Mae'r rhain yn cynnwys Peirianneg Lân a Nyrsio, sy'n enghreifftiau o'r ffordd y gall meysydd yr ydym yn gweithio ynddynt ar hyn o bryd ddatblygu.

Ddechrau mis Awst, byddwn yn croesawu ein Dirprwy Is-Ganghellor newydd ar gyfer ymchwil – yr Athro Angela Hatton.  Un maes y bydd angen iddi arwain arno ar unwaith yw effaith y newidiadau i'r FfRhY ar gyfer FfRhY2028. Mae'r newidiadau'n sylweddol a bydd angen i'r Brifysgol wneud newidiadau i'r ffordd yr ydym yn ymchwilio ac yn cynnal asesiadau effaith.

Roeddwn wrth fy modd yn gweld y manylion diweddar ynglŷn â phrosiect yr Hen Goleg, sydd bellach yn mynd rhagddo'n dda iawn. Mae hwn yn brosiect hynod gyffrous ar gyfer dyfodol yr elfen ryfeddol hon o'n treftadaeth ac i ddyfodol canol tref Aberystwyth.  Fel y dywedais o'r blaen, y mae hefyd yn rhan o'n hymdrechion i ddiogelu cynaliadwyedd ariannol y Brifysgol yn y dyfodol, wrth i ni wneud rhannau o'n hystâd sydd ar hyn o bryd yn tynnu'n helaeth ar ein hadnoddau, yn asedau rhagorol i'n sefydliad ac i'n rhanbarth.

Yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf, byddwn yn gweld rhai newidiadau i'r staff a

bydd sawl wyneb cyfarwydd iawn yn ymddeol. Bydd yr Athro Robert Meyrick o'r Ysgol Gelf yn ymddeol ddiwedd mis Gorffennaf ar ôl 41 mlynedd eithriadol o wasanaeth i'r Brifysgol, 19 o'r rheiny yn Bennaeth Adran. Byddwn hefyd yn ffarwelio â'r Athro Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor - Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi, ar ôl 33 mlynedd yn y Brifysgol. Yr wythnos ddiwethaf, ymddeolodd Martin Davies ein rheolwr cyflogres, ar ôl gwneud yn sicr bod pawb ohonom yn cael ein talu. Yn olaf, mae Sue Pester o'r uned Ymchwil, Busnes ac Arloesi, wedi ymddeol am yr eildro. Cefais wybod bod rhywun wedi cyfrifo gwerth y grantiau ymchwil y bu Sue yn gysylltiedig â nhw, ac mae'r cyfanswm yn fwy na £100m. Diolch o'r galon iddynt, ac i eraill sy'n ein gadael, am eu hymroddiad, eu cefnogaeth a'u cyfeillgarwch.

Mae blwyddyn dathlu ein 150fed pen-blwydd bellach yn dirwyn i ben. Rwy'n ddiolchgar am eich cefnogaeth i'n cynorthwyo i nodi'r garreg filltir ryfeddol hon fel cymuned Prifysgol. Rydym wedi cynnal digwyddiadau mewn lleoliadau gartref a thramor, ac ym mhob un ohonynt profwyd agwedd gadarnhaol wych, sy'n adlewyrchu'n glir pa mor annwyl yw'r Brifysgol a thref Aberystwyth yn eu golwg a'u hoffter tuag atynt.

Y digwyddiad mawr nesaf ar galendr y Brifysgol, wrth gwrs, yw'r graddio, ac rwyf bob amser yn edrych ymlaen ato. Mae'n bleser ac yn fraint gweld yr hapusrwydd ar wynebau ein graddedigion newyddaf a'u cefnogwyr, a rhannu balchder yn eu cyflawniadau. Hoffwn ddiolch i gydweithwyr sy'n brysur yn gweithio y tu ôl i'r llenni i baratoi popeth ar gyfer seremonïau eleni.

Diolch i chi gyd am eich gwaith caled a'ch cefnogaeth barhaus a gobeithio eich bod wedi trefnu i gymryd seibiant ar ryw adeg yn ystod yr haf.

**Yr Athro Elizabeth Treasure**
**Is-Ganghellor**



# Hawlio Heddwch

## Gŵyl Ymchwil Prifysgol Aberystwyth, 1-7 Tachwedd 2023

**Yr Athro Mererid Hopwood, Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd**
**Dr Jenny Mathers, Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol**
**Dr Jennifer Wolowic, Y Ganolfan Ddeialog**

Ganrif yn ôl, â doluriau rhyfel dinistriol a phandemig byd-eang yn parhau'n fyw iawn, cynhaliwyd cynhadledd Undeb Cynghrair y Cenhedloedd Cymru yn Aberystwyth. Yr amcan oedd sicrhau dyfodol heddychlon a llewyrchus i bawb. Yn ystod y gynhadledd, cynigiodd Annie Hughes Griffiths y dylai merched Cymru apelio ar eu chwiorydd yn yr UDA i sicrhau aelodaeth eu gwlad fawr yng Nghynghrair y Cenhedloedd. Yn y misoedd dilynol aethpwyd ati i drafod â merched o bob cefndir ar hyd a lled Cymru, a chasglwyd 390,296 o lofnodion. Bellach, gan mlynedd yn ddiweddarach, mae'r ddeiseb hanesyddol wedi dychwelyd adref o sefydliad y Smithsonian yn Washington D.C. i Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth.

Wedi ei hysbrydoli gan yr hanes hwn, bydd Gŵyl Ymchwil Prifysgol Aberystwyth 2023 yn rhoi sylw i'r modd y gall dyhead unigolion a phenderfyniad cydweithredol gael dylanwad sylweddol yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang. Nod yr ŵyl hon yw dathlu'r unigolion, y grwpiau, a'r syniadau sydd wedi llunio heddwch yn y gorffennol, ynghyd ag archwilio ffyrdd y gellir llunio dyfodol o heddwch.



*Arweinydd y ddirprwyaeth aeth â'r ddeiseb heddwch hanesyddol i'r Unol Daleithiau yn 1924 oedd Annie Hughes-Griffiths a welir yma yn dal yr apêl y tu allan i'r Tŷ Gwyn yn Washington DC gyda Gladys Thomas, Mary Ellis ac Elined Prys.*
*Llun: Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru.*

Wrth i ni wynebu amgylchiadau anodd gan gynnwys pandemig byd-eang, rhyfeloedd yn Ewrop a chyfandiroedd eraill, a grymoedd dybryd yr argyfwng hinsawdd, mae cenhedlaeth newydd o ddinasyddion, arweinwyr, a meddylwyr arloesol o Aberystwyth a mannau eraill yn codi i chwilio am atebion i heriau heddiw. Maent yn sefydlu rhwydweithiau dylanwadol ac yn chwilio am yr heolydd all hawlio dyfodol heddychlon a llewyrchus.

Ymunwch â ni o 1-7 Tachwedd, 2023, i ddathlu dulliau a luniodd heddwch yn y gorffennol ac i archwilio ffyrdd o ddiffinio presennol a dyfodol heddychlon. Bydd yr ŵyl yn cynnwys lansiadau llyfrau, trafodaethau cyweirnod a fydd yn cwmpasu disgyblaethau amrywiol, ffair gymunedol, celfyddyd a cherddoriaeth, yn ogystal â deialogau, gweithdai a phob math o weithgareddau a fydd a'u heffaith yn bell-gyrhaeddol.

**Cymerwch rhan**

Hoffem gynnal sesiynau sy'n berthnasol i bob un o ganolfannau ymchwil y Brifysgol: Y Bydoedd a Fynnwn, Dyfodol Gwledig, Deallusrwydd Artiffisial. Anfonwch eich syniadau ar gyfer digwyddiadau, sgyrsiau, gweithdai neu raglenni myfyrwyr a'r gymuned erbyn 21 Gorffennaf 2023.

# Medal Gŵyl y Gelli

Cyflwynwyd Medal Farddoniaeth Gŵyl y Gelli eleni i Mererid Hopwood, Athro Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd.

Dyfarnwyd Medalau'r Ŵyl yn flynyddol ers blwyddyn Olympaidd Prydain yn 2012, a'r ysbrydoliaeth iddynt yw'r fedal Olympaidd wreiddiol am farddoniaeth. Athena yw eu hawen, ac maent wedi'u saernïo gan y gof arian lleol, Christopher Hamilton.

Yn ymuno â'r Athro Hopwood am Fedalau Gŵyl y Gelli fydd yr awdur, darlunydd a sgriptiwr Alice Oseman (Medal am Ffuglen), y bardd roc o Wcráin Serhiy Zhadan (Medal am Ysgrifennu Caneuon) a'r nofelydd arobryn Salman Rushdie (Medal am Ryddiaith).




*Yr Athro Mererid Hopwood gyda Prif Swyddog Gweithredol Gŵyl y Gelli Julie Finch.*
*Credyd: Adam Tatton-Reid*



# Bardd y Dref ar gyfer Aberystwyth



Mae'r Darlithydd mewn Ysgrifennu Creadigol a'r bardd arobryn Eurig Salisbury wedi cael ei benodi'n Fardd y Dref yn Aberystwyth, ac ef fydd y person cyntaf erioed i gyflawni'r swydd hon.

Gwnaed y cyhoeddiad yn Seremoni Urddo Maer Aberystwyth a gynhaliwyd gan Gyngor Tref Aberystwyth ar 19 Mai. Un o gyn-fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth, y Cynghorydd Kerry Ferguson, a gafodd ei hurddo'n Faer.

Yn y Seremoni yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, cyflwynodd y Maer newydd y ffon farddol a thystysgrif i Eurig. Yn ei dro, bu Eurig yn cyfarch y Maer newydd a'r Maer sy'n ymddeol, Talat Chaudhri, â cherddi o'i waith.

Daeth y syniad o greu swydd Bardd y Dref yn Aberystwyth yn sgil awgrym gan y Cynghorydd Emlyn Jones, cydymaith newydd y Maer, a ddywedodd: "Mae Aberystwyth yn dref dra lenyddol a chelfyddydol, ac rwy'n falch iawn ein bod wedi cytuno i sefydlu 'Bardd y Dref'. Mae hyn yn adlewyrchiad o gyfoeth barddol yr ardal, gyda golwg yn ôl i draddodiad barddol Cymru o gael bardd 'y llys', ond yn bennaf yn edrych ymlaen i ddathlu beirdd a cherddi modern Cymru sydd yn ffynnu yma yn Aberystwyth. Allai feddwl am neb gwell nag Eurig i fod y cyntaf yn y traddodiad newydd yma!"

Wrth dderbyn ei deitl newydd, dywedodd Eurig: "Mae'n anrhydedd i mi gael fy mhenodi'n Fardd Tref cyntaf Aberystwyth, ac rwy'n edrych ymlaen at flwyddyn o farddoni. Mae'r fenter newydd hon yn brawf amlwg o bwysigrwydd parhaus barddoniaeth gyhoeddus gref sydd â'i gwreiddiau yn y gymuned yma yng Nghymru."

# Cyfrifiadureg yn ennill gwobr Adran y Flwyddyn 2023

Cafodd yr Adran Cyfrifiadureg ei choroni'n Adran y Flwyddyn yng Ngwobrau Addysgu, Dysgu a Phrofiad Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth 2023, a gynhaliwyd ddydd Iau 4 Mai.



Mae'r gwobrau, a drefnir yn flynyddol gan Undeb Myfyrwyr Aberystwyth gyda chefnogaeth y Brifysgol, yn tynnu sylw at ragoriaeth addysgu a chydnabod cyfraniadau staff a myfyrwyr at y profiad o fod yn fyfyriwr.

Roedd enwebiadau ar gyfer yr Adran Gyfrifiadureg yn canmol angerdd a gwybodaeth y staff addysgu, y cyfleusterau o'r radd flaenaf a'r ymchwil arloesol. Roeddent yn cymeradwyo'r amgylchedd dysgu cefnogol, yr awyrgylch bywiog a dymunol, a'r ymrwymiad i amrywioldeb a chynhwysiant. Roedd yr enwebiadau hefyd yn canmol cysylltiadau cryf yr adran â'r cwmnïau technoleg gorau a'r gwaith ymgysylltu â'r gymuned ac estyn allan a'r cyfleoedd a roddodd hyn i fyfyrwyr.

Meddai Elizabeth Manners, Swyddog Materion Academaidd Undeb Myfyrwyr Aberystwyth: "Da iawn i bawb a gafodd eu henwebu am wobr eleni, a llongyfarchiadau i'n henillwyr. Bu'n bleser darllen yr enwebiadau ac maent yn tystio i'n staff a'n myfyrwyr rhagorol sy'n ymdrechu i wneud profiad myfyriwr Aberystwyth yn wirioneddol wych."

Meddai'r Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr): "Diolch i Undeb Myfyrwyr Aberystwyth am noson bleserus yn dathlu popeth sy'n gwneud ein Prifysgol mor arbennig, a llongyfarchiadau mawr i holl enillwyr y Gwobrau Addysgu, Dysgu a Phrofiad Myfyrwyr eleni.

Enillwyr Gwobrau Addysgu, Dysgu a Phrofiad Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth 2023 yw:

**Adran y Flwyddyn**
Yr Adran Cyfrifiadureg

**Darlithydd y Flwyddyn**
Andrew Baldwin, Yr Ysgol Gelf

**Tiwtor Personol y Flwyddyn**
Dr Helen Miles, Yr Adran Cyfrifiadureg

**Arolygydd y Flwyddyn**
Yr Athro Luis Mur, Adran y Gwyddorau Bywyd

**Aelod Staff Ategol/Gwasanaeth y Flwyddyn**
Helen Williams

**Athro Ôl-raddedig y Flwyddyn**
Abby Monk

**Aelod Staff Myfyrwyr y Flwyddyn**
Lilly Casey-Green

**Myfyriwr-fentor y Flwyddyn**
Muhammad Naveed Arshad

**Myfyriwr-wirfoddolwr y Flwyddyn**
Andrine Vangberg

**Hyrwyddwr Diwylliant Cymreig**
Cai Phillips

**Cynrychiolydd Academaidd y Flwyddyn**
Zoe Hayne

**Gwobr Hyrwyddwr Rhyddid**
Dax Aziraphale FitzMedrud ac Elena Bloomquist

# Gwaith adnewyddu yn dechrau ar yr Hen Goleg

Fis diwethaf nodwyd datblygiad pwysig yn ein cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer yr Hen Goleg wrth i'r cam adfer o'r gwaith gychwyn.

Bellach mae sgaffaldiau helaeth yn cael eu codi ar hyd ochr y prom yr Hen Goleg wrth i waith ar yr adeiledd - y gwaith maen, y ffenestri a'r to - gychwyn er mwyn sicrhau bydd yr adeilad yn ddiogel rhag y gwynt a'r glaw cyn y gaeaf.

Mae hyn yn nodi carreg filltir bwysig yn y prosiect ac yn dilyn gwaith helaeth i ddymchwel elfennau mewnol ac allanol a gafodd eu hychwanegu at y safle hanesyddol ar hyd y degawdau mwyaf diweddar.

Mae hen Adeilad Ystadau yn Stryd y Brenin wedi'i ddymchwel i wneud lle ar gyfer atriwm newydd a fydd yn cynnig mynediad i bob lefel o'r adeilad.

Tynnwyd ychwanegiadau i du fewn yr adeilad a wnaed yn ystod y 1960au ac mae hynny wedi datgelu llawer o nodweddion pensaernïol gwreiddiol, gan gynnwys yr hyn y credir iddi fod yn gampfa yn nyddiau cynnar y Brifysgol.

Mae parchu treftadaeth yr adeilad yn flaenoriaeth ac wedi golygu gwaith pensaernïol manwl i gydymffurfio â'r caniatad adeilad rhestredig sydd ei angen ar yr adeilad rhestredig Gradd 1, gwaith a fydd yn parhau wrth i'r prosiect ddatblygu.

Mae Stoneguard o Fanceinion wedi eu comisiynu i wneud y gwaith maen, cwmni sydd wedi gweithio ar brosiectau nodedig yng Ngerddi Kew, yr Amgueddfa Hanes Natur a Phalas San Steffan.

Mae 664 o ffenestri yn yr Hen Goleg, wedi'u gosod mewn fframiau carreg, dur a phren. Mae'r gwaith o adfer y fframiau pren ar y gweill ac yn cael ei wneud gan y saer treftadaeth




*Y saer treftadaeth o Aberteifi, Gary Davies (chwith) a Leighton Brown, Rheolwr Prosiect gydag Andrew Scott, ac un o'r ffenestri gwreiddiol o'r filas Sioraidd.*

o Aberteifi Gary Davies, a fu'n gweithio ar y gwaith arobryn i adfer Castell Aberteifi.

Ac mae'r dasg enfawr o ail-doi'r Hen Goleg yn cael ei chyflawni gan yr arbenigwyr adfer toeau treftadaeth Greenough and Sons o Ynys Môn sydd wedi gweithio ar y Llyfrgell Genedlaethol a Chastell Coch, ac sydd hefyd yn gweithio ar hyn o bryd ar Neuadd y Dref Manceinion.

Gallwch ddarllen mwy am y gwaith adnewyddu ar-lein yma.

## Y Gronfa Ffyniant Bro

Mae prosiect yr Hen Goleg wedi derbyn £5.4m gan Lywodraeth y DU drwy'r Gronfa Ffyniant Bro fel rhan o becyn llwyddiannus o geisiadau a arweiniwyd gan Gyngor Sir Ceredigion ac a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021.

Mae'r grant yn ariannu'n llawn y gwaith o gaffael ac integreiddio'r Cambria i brosiect yr Hen Goleg.

Mae'r Cambria, fu'n gartref i'r Coleg Diwinyddol am ran helaethaf o'r ganrif ddiwethaf ac wedi hynny'n swyddfeydd, drws nesaf i'r Hen Goleg a'r filas Sioraidd ac yn union gyferbyn â'r Pier. Unwaith y bydd wedi'i gwblhau bydd yn darparu cyfleusterau cynadledda a chyfarfod ychwanegol ynghyd â llety gwesty 4* ychwanegol.

## Buddsoddiad o £43m

Gydag ychwanegiad Y Cambria, mae prosiect yr Hen Goleg yn ei gyfanrwydd yn fuddsoddiad o £43m.

Mae ychwanegu Y Cambria yn cynrychioli ail gam i'r prosiect.

Mae disgwyl i Gam 1, sy'n cynnwys yr Hen Goleg ei hun a'r filas Sioraidd (1 a 2 Marine Terrace), gael ei gwblhau tua diwedd 2025.

Bydd Cam 2, Y Cambria, yn dilyn ac mae disgwyl i'r gwaith hwnnw gymryd blwyddyn arall i'w gwblhau.

Mae statws rhestredig Gradd 1 yr Hen Goleg yn golygu fod hwn yn brosiect heriol ac fe allai heriau pellach ymddangos wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.

## Eisiau gwybod mwy?

Gallwch ddysgu mwy am brosiect yr Hen Goleg ar ein tudalennau gwe.



# Myfyrwyr a staff yn trechu'r hacwyr wrth brofi Cyber Escape




Dysgodd dros gant o fyfyrwyr a staff am ddiogelwch ar-lein wrth iddynt gael profiad ymarferol o Cyber Escape ar Gampws Penglais ddechrau mis Mehefin.

Digwyddiad wedi ei seilio ar ystafell ddianc oedd hwn lle bu timau o bump yn cydweithio i ddod o hyd i gliwiau, i datrys problemau a dehongli posau mewn ystafell ddianc deithiol a adeiladwyd y tu mewn i gynhwysydd llongau.

Gallai'r rhai oedd yn cymryd rhan wella eu dealltwriaeth o'r risgiau seiberddiogelwch posibl wrth ddysgu sut i leihau effaith ymosodiad seiber trwy amddiffyn gwybodaeth ac asedau ar-lein.

Trefnwyd Cyber Escape gan y Gwasanaethau Gwybodaeth, ac roedd yn gydweithrediad rhwng CGI (ymgynghorwyr TG a busnes) Heddlu Dyfed-Powys, a'r Ganolfan Seibergadernid yng Nghymru.




*Tîm o Wasanaethau Myfyrwyr*

Dywedodd Dan Monaghan, Arweinydd Tîm Diogelwch Seiber y Gwasanaethau Gwybodaeth:

"Mae ymdrechion maleiswedd a gwe-rwydo yn fygythiad sylweddol i sefydliadau fel y Brifysgol, gan fod ymosodiadau seiber yn dod yn fwyfwy cymhleth a deallus.  Rhoddodd y profiad CGI Cyber Escape gyfle i fyfyrwyr a staff ddysgu am risgiau diogelwch ar-lein mewn ffordd hwyliog, rhyngweithiol a oedd gobeithio yn gofiadwy.

"Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan y rhai a gymerodd ran yn yr ymarfer. Dywedodd pobl bod fformat ymarferol y sesiwn wedi cael mwy o effaith na hyfforddiant traddodiadol, a'i fod hefyd yn weithgaredd effeithiol i adeiladu tîm. Rydym yn hynod ddiolchgar i CGI am ddod â'r profiad Cyber Escape i'r Brifysgol."

Mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth yn gobeithio gallu dod â'r profiad Cyber Escape yn ôl i'r campws eto yn 2024.



*Tîm o Adnoddau Dynol*



*Tîm o'r Adran Gyfrifiadureg*



*Tîm o'r Gwasanaethau Gwybodaeth*

# Darlithydd y Gyfraith yn agor ei chartref i ffoaduriaid o Wcráin

Ar 27 Chwefror 2023, ymgasglodd dwsinau o Wcreiniaid, teuluoedd sydd wedi cynnig llety ac urddasolion o bob rhan o Gymru yn y Senedd ym Mae Caerdydd i ddangos cefnogaeth barhaus i'r Wcráin fwy na blwyddyn ers goresgyniad Rwsia.

Yn eu plith roedd darlithydd cyfraith o Brifysgol Aberystwyth Rosemary Toll sydd, gyda'i phartner Jonathan, wedi croesawu tair cenhedlaeth o un teulu ers mis Mai 2022.

Gofynasom i Rosemary sôn mwy am ei phrofiad:

**Beth wnaeth i chi benderfynu dod yn noddwr?**

Pan ddechreuodd y rhyfel a phan ddechreuodd gwledydd Ewropeaidd eraill gynnig cymorth i'r Wcráin, roeddem yn teimlo ar unwaith fod arnom ni eisiau helpu pe bai'n bosib. Roedd Jon a minnau'n gwybod bod gennym ni ddigon o le i deulu a'i bod yn gwneud synnwyr ei gynnig i'r rhai mewn angen. Ond ein prif reswm dros gynnig lle iddynt oedd am ein bod yn gwybod pe baem ni'n ffoaduriaid byth, yn ffoi rhag rhyfel, y byddem ni eisiau gwybod bod rhywun, yn rhywle, yn barod i'n helpu.

**Beth oedd y broses o ddod yn noddwr?**

Cyn gynted ag y lansiwyd y Cynllun Cartrefi i Wcráin, dechreuais geisio dod o hyd i deulu i gynnig llety iddynt. Ar y pryd (Mawrth 2022) nid oedd proses baru ffurfiol ac nid oedd Llywodraeth Cymru yn gweithredu fel noddwr ei hun eto. Mewn gwirionedd, roedd hyn yn golygu, os oeddech chi eisiau cynnig llety, roedd yn rhaid i chi gynnig lle i unigolion penodol. Roedd y rhan fwyaf o bobl yn gwneud hyn trwy'r cyfryngau cymdeithasol ac, a dweud y gwir, roedd yn dorcalonnus. Roedd cymaint o bobl mewn angen ac roedd yn anodd iawn penderfynu pwy i gysylltu â nhw.

Gwelais neges Iryna am ei theulu o bedwar ac roeddem ni'n teimlo ein bod mewn sefyllfa i gynnig llety i grŵp mwy, a'u helpu i osgoi cael eu gwahanu. Anfonais neges ati ac felly y bu hi... ac eithrio'r problemau enfawr a gawsom gyda Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig a lusgodd am 7 wythnos. Dylwn ychwanegu yn y fan hon fod fy Aelod Seneddol, Liz Saville-Roberts, wedi bod yn gymorth enfawr i roi pwysau ar y Swyddfa Gartref i gyhoeddi eu fisâu yn brydlon.

**Soniwch rywfaint am y teulu sy'n aros gyda chi.**

Iryna a'i dau fab, 17 ac 11 oed sy'n aros gyda ni, a mam Iryna, Nina.

Mae gŵr Iryna yn dal yn Wcráin ac nid oes modd iddo adael, ond rydym ni wedi cwrdd ag ef ar alwadau fideo ac mae'n ymddangos yn ddyn hynod garedig a gwydn. Yn ogystal, fe wnes i helpu i ddod o hyd i noddwr i chwaer Iryna a'i mab ddwy filltir i ffwrdd, fel y gallai'r chwech ohonyn nhw fyw yn agos at ei gilydd, nes i chwaer Iryna a'i mab ddychwelyd i'r Wcráin.



*Nina, Iryna a meibion Iryna*

Mae Nina yn mwynhau coginio ac rydym ni wedi blasu llawer o brydau traddodiadol Wcreinaidd o'r herwydd. Mae Iryna yn gweithio'n lleol ac yn helpu i gefnogi ei theulu yn Wcráin yn ariannol. Mae'r mab iau, Vova, yn yr ysgol gynradd, a bydd yn dechrau yn yr ysgol uwchradd ym mis Medi. Mae wrth ei fodd gyda phêl-droed ac mae'n chwarae i'r tîm dan-11 lleol. Prin ei fod yn siarad unrhyw iaith pan gyrhaeddodd ond mae bellach yn sgwrsio yn y Gymraeg a'r Saesneg, sy'n drawiadol iawn! Mae ei frawd hŷn, Yarik, yn gweithio'n rhan amser wrth gwblhau ei ddiploma ysgol Wcreineg ar-lein ac yn dysgu Saesneg uwch. Mae wedi bod eisiau astudio'r gyfraith a busnes erioed ac mae wedi cael cynnig astudio yn Aberystwyth - rwy'n mawr obeithio y bydd yn ymuno â ni eleni.



*Nina, Vova, Iryna a Yarik*



*Rosemary gydag Iryna a'i meibion*

**Sut beth oedd croesawu teulu o ddieithriaid i'ch cartref?**

Does dim gwadu ei fod yn brofiad brawychus. Roeddwn i'n nerfus iawn pan aethom i'w nôl o Faes Awyr Lerpwl; doedd gan Jon a minnau ddim syniad beth i'w ddisgwyl. Ar ddechrau'r Cynllun, ychydig iawn o gefnogaeth oedd wedi'i drefnu ar gyfer y rhai oedd yn cynnig llety a'r gwesteion. Ond dros y misoedd, mae'r seilwaith hwnnw wedi gwella a gallaf ddweud yn onest bod Cyngor Sir Gwynedd wedi bod yn anhygoel.

Pryd bynnag roeddwn i'n teimlo wedi fy llethu neu'n poeni, roeddwn i'n ceisio atgoffa fy hun gymaint yn fwy brawychus oedd y profiad hwn i'n gwesteion, oedd wedi gadael eu gwlad, eu teulu a'u cartref mewn amgylchiadau mor ofnadwy.

**Beth ydych chi wedi'i ddysgu o'r profiad?**

Mae rhannu eich cartref gyda theulu o ddieithriaid (er nad ydyn nhw'n ddieithriaid erbyn hyn) sydd â diwylliant ac iaith wahanol yn dysgu llawer i chi am oddefgarwch. Rwy'n credu bod gennym ni duedd yn y Gorllewin i deimlo bod ein ffordd ni o wneud pethau yn 'well' ac mae 'na duedd i edrych i lawr ar bobl o ddiwylliannau eraill. Mae'n brofiad sy'n torri eich crib go iawn, gweld y teulu hwn a'r Wcreiniaid rydym wedi cwrdd â nhw yn ein cymuned leol, yn creu bywydau yma, er eu bod yn gobeithio dychwelyd adref cyn gynted ag y bo modd.

**Soniwch am y digwyddiad y gwnaethoch ei fynychu yn y Senedd.**

Ym mis Chwefror, cawsom ein gwahodd gan Lywodraeth Cymru i ddigwyddiad arbennig i nodi blwyddyn ers i'r rhyfel ddechrau. Roeddem ni'n un o ddim ond saith teulu oedd wedi cynnig llety o Gymru gyfan a wahoddwyd, felly roedd yn fraint ac anrhydedd enfawr bod yn bresennol. Roedd siaradwyr amrywiol, gan gynnwys Mick Antoniw, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, a chynrychiolydd Llysgennad Wcráin.

Roedd yna hefyd rai cerddorion Wcreinaidd

oedd wedi ceisio noddfa yng Nghymru, yn chwarae cerddoriaeth draddodiadol. Cawsom gynnig cinio, a'r cyfle i sgwrsio ag eraill sy'n ymwneud â Chynllun Cartrefi i'r Wcráin. Yna cafodd ein gwesteion daith o amgylch y Senedd, gyda chyfieithydd. Fe wnaethon nhw fwynhau'r digwyddiad yn fawr iawn a dweud




ei fod yn arbennig ac yn emosiynol iawn iddyn nhw.

**Pe byddech chi wedi gallu gwybod sut brofiad fyddai hwn wedi bod, fyddech chi'n cytuno i wneud eto?**

Wel, gyda chefnogaeth Cyngor Sir Gwynedd, mae'r teulu sydd wedi bod yn byw gyda ni wedi dod o hyd i dŷ i'w rentu mewn tref gyfagos, felly byddant yn symud o'n cartref ym mis Gorffennaf. Byddwn yn parhau i'w cefnogi gyda'u bywyd yng Nghymru.

Mae Jon a minnau wedi cytuno y byddem yn bendant yn ystyried croesawu teulu o ffoaduriaid eto. Mae'r profiad a gawsom wedi ein helpu i ddeall yr hyn y gallem ac y byddem yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf i wneud pethau'n haws ac yn fwy esmwyth i bawb.

# Taith gerdded noddedig

Cerddodd myfyrwyr nyrsio a darlithwyr o Brifysgol Aberystwyth bromenâd Aberystwyth i godi arian ar gyfer uned ddydd cemotherapi Ysbyty Bronglais, y Elusen y Flwyddyn Prifysgol Aberystwyth 2022-23.

Yn ystod y daith gerdded noddedig, a ddigwyddodd ar 28 Mai 2023, cerddodd myfyrwyr nyrsio a darlithwyr nyrsio'r promenâd 10 gwaith.

Dywedodd Gwenno Jones, cynrychiolydd myfyrwyr ar gyfer Nyrsio Iechyd Meddwl ym Mhrifysgol Aberystwyth: "Fel carfan nyrsio gyntaf Prifysgol Aberystwyth, mae'n bwysig ein bod yn cefnogi'r ysbyty lleol, yn enwedig yr uned ddydd cemotherapi gan ei bod yn uned mor hanfodol i'w chael mewn ardal wledig iawn.

"Mae hefyd yn bwysig i ni gefnogi elusen y flwyddyn o ddewis y brifysgol gan eu bod wedi gwneud cymaint o waith i'n croesawu ni nyrsys i'r ardal. Mae creu'r cwrs nyrsio mewn tref fel Aberystwyth wedi galluogi llawer o bobl leol i wireddu eu breuddwydion o ddod yn nyrsys y dyfodol."



# Sgiliau digidol grymusol: Cefnogi datblygiad myfyrwyr a staff ers dwy flynedd



Dr Sioned Llywelyn sy'n arwain Prosiect Sgiliau Digidol y Brifysgol. Lansiwyd y prosiect yn haf 2021, ac mae'n cynorthwyo myfyrwyr a staff i asesu a datblygu eu sgiliau digidol. Clywsom gan Sioned yn rhifyn mis Chwefror 2022, felly rydym wedi ei gwahodd yn ôl i roi'r manylion diweddaraf i ni am gynnydd cyffrous y prosiect ers hynny.

**Beth fu eich llwyddiant mwyaf dros y flwyddyn a aeth heibio?**

Un o'n prif lwyddiannau eleni fu cyflwyno'r Offeryn Darganfod Digidol Jisc i bob myfyriwr sylfaen a myfyrwyr y flwyddyn gyntaf. Yn dilyn cynllun peilot yn 2021/22, cwblhaodd dros 1,000 o fyfyrwyr yr Offeryn Darganfod Digidol Jisc eleni, a'u galluogi i asesu a gwella eu sgiliau digidol.

Llwyddwyd i gyflawni hyn trwy gydweithio ag adrannau a thimau amrywiol, gan gynnwys cydweithwyr academaidd, Llyfrgellwyr Pwnc, Ymgynghorwyr Gyrfa, ac adborth gwerthfawr gan y myfyrwyr eu hunain.

**Pryd fydd myfyrwyr eraill yn gallu defnyddio'r Offeryn Darganfod Digidol, ac a yw ar gael i staff?**

Rydym yn annog myfyrwyr i gwblhau'r Offeryn Darganfod Digidol yn flynyddol er mwyn olrhain datblygiad eu sgiliau digidol. Gyda chymorth y Llyfrgellwyr Pwnc, Ymgynghorwyr Gyrfa a chydweithwyr academaidd, rydym wedi cynnal cynllun peilot arall eleni ac wedi datblygu cynllun cynhwysfawr i roi cymorth i bob myfyriwr israddedig ac ôl-raddedig i ymgymryd â'r Offeryn Darganfod Digidol a datblygu eu sgiliau digidol dros y flwyddyn academaidd sydd i ddod.

Mae'r Offeryn Darganfod Digidol hefyd yn adnodd gwerthfawr i staff, ac maent hwy hefyd yn cael eu hannog i'w gwblhau bob blwyddyn.

Mae cyfres o gwestiynau amrywiol ar gael i staff gan gynnwys cyfle i hunanasesu eu sgiliau digidol cyffredinol, cwestiynau am hygyrchedd a chynhwysiant digidol, am addysgu digidol effeithiol, ac arwain y newid digidol.

**Roeddech chi'n sôn y tro diwethaf am eich bwriad i ddatblygu adnoddau newydd, a allwch chi ddweud ychydig mwy wrthym am y rhain?**

Rydym wedi datblygu sawl adnodd newydd eleni, ond dau yn bennaf sef Llyfrgell Sgiliau Digidol a'r casgliadau Sgiliau Digidol yn LinkedIn Learning.

Mae'r Llyfrgell Sgiliau Digidol yn cynnwys dros 200 o adnoddau PA ac adnoddau allanol i gynorthwyo myfyrwyr i ddatblygu ystod o sgiliau digidol newydd a rhai sy'n bodoli eisoes. Mae'r rhain wedi'u rhannu'n chwe chasgliad ac yn darparu adnoddau ar wella diogelwch ar-lein; datblygu sgiliau meddalwedd penodol, megis sut i godio gan ddefnyddio Python; ac awgrymiadau ar sut i gydweithio ag eraill ar-lein. Byddwn yn lansio llyfrgell arall, yn benodol ar gyfer staff, ym mis Mehefin 2023.

Rydym hefyd wedi datblygu 30 Casgliad o Sgiliau Digidol yn LinkedIn Learning (15 ar gyfer myfyrwyr a 15 ar gyfer staff) i'w gwneud hi'n llawer haws dod o hyd i gyrsiau a fideos o fewn y platfform dysgu ar-lein a fydd yn helpu i ddatblygu sgiliau digidol penodol. Mae pob casgliad yn cynnwys 9 o adnoddau, sy'n amrywio o fideos byr 3 munud i gyrsiau mwy manwl.

### A allwch chi ddweud wrthym am unrhyw ddatblygiadau allweddol eraill?

Gwnaethom ymateb i'r adborth yn gofyn am fwy o hyfforddiant i staff i ddatblygu sgiliau digidol, a hynny nid yn unig ar gyfer y staff eu hunain ond hefyd i gefnogi datblygiad eu myfyrwyr. Eleni, cynhaliwyd sesiynau hyfforddi newydd, gan weithio gyda 110 aelod o staff.

Datblygiad arwyddocaol arall oedd penodi Hyrwyddwyr Digidol y Myfyrwyr o fewn ein tîm. Maent wedi rhoi dealltwriaeth hollbwysig inni o anghenion myfyrwyr ac wedi arwain sawl prosiect arloesol gan gynnwys cyfweld graddedigion i holi am y sgiliau digidol y maent yn eu defnyddio yn y gweithle; casglu adborth myfyrwyr ar LinkedIn Learning; creu amrywiaeth o gasgliadau LinkedIn Learning ar bynciau fel rheoli amser a diogelwch ar-lein; cyhoeddi blogiau llawn gwybodaeth; a hyrwyddo adnoddau ein tîm ar stondinau, ar y cyfryngau cymdeithasol, a thrwy ffeithluniau.

### Beth ydych chi'n edrych ymlaen ato fwyaf y flwyddyn nesaf?

Y peth cyntaf yw'r Ŵyl Sgiliau Digidol, digwyddiad newydd i'w gynnal rhwng 6 a 10 Tachwedd 2023. Bydd yn para dros gyfnod o wythnos ac yn cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr archwilio popeth sy'n ddigidol. Bydd gennym gyfuniad o weithdai ymarferol, arddangosiadau, sesiynau galw heibio, a llawer mwy.

Yn ogystal, rydym yn cydweithio ag aelodau o staff y Gwasanaethau Gwybodaeth (GG) i ddatblygu'r modiwl GG Hanfodion Digidol ar gyfer Addysgu. Modiwl yw hwn ar gyfer staff academaidd newydd a'r rhai sydd â chyfrifoldebau addysgu. Bydd yn cynnig hyfforddiant hanfodol, rhoi cyfarwyddyd, a chynnig cymorth gan y GG a hynny i gyd o un lle. Bydd yn cael ei lansio ar ddiwedd haf 2023, gan sicrhau bod staff academaidd newydd wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y flwyddyn academaidd sydd i ddod.

# Pwy yw pwy



*Dr Sioned Llywelyn*

*Arweinydd Sgiliau Digidol*



*Shân Saunders*

*Cydlynydd Datblygu Sgiliau a Galluoedd Digidol*



*Jia Ping Lee*

*Cydlynydd Datblygu Sgiliau a Galluoedd Digidol*



*Jeffrey Clark*

*Hyrwyddwr Digidol y Myfyrwyr*



*Laurie Stevenson*

*Hyrwyddwr Digidol y Myfyrwyr*

### Y datblygiadau diweddaraf

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect, tanysgrifiwch i'n Gwefan WordPress Sgiliau Digidol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau cyffredinol am ein gwaith neu am yr adnoddau rydym yn eu cefnogi, cysylltwch â ni - digi@aber.ac.uk

# Datblygu Labordy Cartref Clyfar newydd

**gan Dr Patricia Shaw, Uwch Ddarlithydd, Roboteg Ddeallus, yr Adran Gyfrifiadureg**

Mae adnodd newydd yn cael ei adeiladu ar Gampws Penglais i gefnogi a datblygu ymchwil gan grŵp ymchwil Roboteg Ddeallus y Brifysgol yn yr Adran Gyfrifiadureg.



*Yr Athro Colin McInnes a Dr Patricia Shaw ar safle adeiladu y labordy cartref clyfar*

Mae adnodd newydd yn cael ei adeiladu ar Gampws Penglais i gefnogi a datblygu ymchwil gan grŵp ymchwil Roboteg Ddeallus y Brifysgol yn yr Adran Gyfrifiadureg.

Ffurf byngalo 3 ystafell wely fydd i'r Labordy Cartref Clyfar newydd a bydd yn cefnogi ymchwil gydweithredol i ddatblygu a chloriannu technolegau newydd a all gynorthwyo'r henoed a phobl ag anableddau i fyw'n annibynnol.

Bydd y labordy'n cynnwys amrywiaeth eang o synwyryddion ar gyfer monitro gweithgareddau yn y tŷ, yn ogystal ag offer robotig i gynorthwyo â gweithgareddau o ddydd i ddydd.  Bydd y gofod yn gwbl weithredol, felly bydd modd i gyfranogwyr gymryd rhan mewn arbrofion sy'n gofyn am aros dros nos neu dros gyfres o ddiwrnodau.

Bydd yr adnodd yn caniatáu i'r grŵp ymchwil Roboteg Ddeallus weithio ar y cyd ag academyddion ledled y Brifysgol, yn enwedig cydweithwyr o'r Adran Seicoleg, yn ogystal â darparwyr gofal iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru.

Un agwedd o'r ymchwil a fydd yn digwydd yn y Labordy Cartref Clyfar yw llywio cadair olwyn â chymorth. Mae llywio o amgylch coridorau a thrwy ddrysau cyfyng yn dipyn o her i lawer o ddefnyddwyr cadair olwyn, ac mae ymchwil a

wnaed yn Aberystwyth wedi ystyried sut y gall technoleg gynorthwyo â hyn. Roedd y system a ddatblygwyd yn galluogi'r defnyddiwr i roi cyfarwyddiadau i'r gadair, er enghraifft "Cer â fi at y tegell", ac yna'n cynllunio llwybr i leoliad mwyaf tebygol y gwrthrych. Bydd y Labordy Cartref Clyfar newydd yn fodd i ni ddatblygu systemau fel hyn ymhellach a'u profi mewn lleoliad sydd bron yr un peth â'r byd go-iawn. Trwy gydweithio'n agos â rhanddeiliaid, fel darparwyr gofal cymdeithasol, rydym yn bwriadu defnyddio ein hymchwil i helpu i ddatblygu technolegau i ddiwallu anghenion defnyddwyr a datrys problemau yn y byd go iawn.




Dr Patricia Shaw

Agwedd arall o'r ymchwil a fydd yn cael ei harchwilio a'i ddatblygu ymhellach yn y Labordy Cartref Clyfar newydd yw anifeiliaid anwes robotig. Er bod y robotiaid hyn yn cynnig rhyngweithio cymdeithasol a chwmnïaeth fel anifail anwes, maent hefyd yn gallu dysgu patrymau nodweddiadol ein diwrnod - er enghraifft, pryd rydym yn codi, yn mynd allan, neu'n cyrraedd adref. Gall arsylwi ar newidiadau mewn patrymau dros amser, fel codi'n hwyrach neu beidio â mynd allan cymaint, fod yn arwyddion cynnar o gyflyrau iechyd meddwl fel iselder. Yn ogystal â hyn, gan eu bod yn robotiaid symudol, pe bai'r preswylydd yn cwympo neu'n llewygu byddai'r robot yn gallu cyfathrebu ag aelodau o'r teulu neu ofalwyr i ddod â chymorth i rywun sy'n byw ar eu pen eu hunain. Bydd gwaith ymchwil pellach a alluogir gan y labordy yn archwilio technolegau ar gyfer gofal iechyd gwledig, gan gynnwys gallu cysylltu o bell ag ymarferwyr meddygol a thechnolegau ar gyfer monitro iechyd a lles, yn ogystal â chynorthwyo ambiwlansiau wrth iddynt ymateb i alwadau trwy ddarparu gwybodaeth ychwanegol a chipolwg ar yr hyn sy'n digwydd yn y tŷ.

Bydd y Labordy Cartref Clyfar newydd yn cynnig cyfle unigryw i'r canolbarth ddangos sut y gall technoleg gynorthwyo ein bywydau yng nghartref y dyfodol. Er mai ymchwilio i fyw â chymorth yw'r prif ddiben, y gobaith yw y bydd yr adnodd newydd hwn hefyd yn rhoi cyfle i eraill ddatblygu ymchwil yn ymwneud ag amgylchedd y cartref. Bydd yn ddefnyddiol ar gyfer pynciau ymchwil sy'n amrywio o reoli ynni, defnydd o ofod neu fonitro ansawdd aer, arbrofion sy'n gofyn am amgylchedd cartref (fel ymchwil ar adsefydlu pobl sydd wedi dioddef strôc), neu gyfleoedd hyfforddi.


Dylai unrhyw un sydd â diddordeb mewn defnyddio'r Labordy Cartref Clyfar newydd gysylltu â Dr Patricia Shaw - phs@aber.ac.uk.



Y gath robot. 'Pixel'

# Golwg ar... Ysgol y Graddedigion

**Gan Yr Athro Reyer Zwiggelaar, Pennaeth Ysgol y Graddedigion**



Mae Ysgol y Graddedigion yn cefnogi ein myfyrwyr uwchraddedig (sy'n gwneud ymchwil ac sy'n dysgu trwy gwrs), trwy gynnig cyfres o raglenni i wella eu datblygiad personol a phroffesiynol, a'u paratoi ar gyfer y camau nesaf yn eu gyrfaoedd.

Mae'r tîm wedi tyfu'n ddiweddar gyda nifer o benodiadau ffracsiynol. Gyda'i gilydd, mae'r penodiadau'n cryfhau'r gefnogaeth a roddir i fyfyrwyr uwchraddedig ac ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfaoedd ar draws y Brifysgol i lwyddo yn eu gyrfaoedd, gan ddod ag ystod o arbenigedd a phrofiad yn ogystal â brwdfrydedd i'w gwaith.

Yn gyntaf, rydym wedi cynyddu maint tîm Ysgol y Graddedigion drwy benodi dau Ddirprwy Bennaeth ychwanegol: Yr Athro Matt Jarvis (Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol) a Dr Mitch Rose (Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear), y ddau yn gweithio 0.2 FTE (cyfwerth ag amser llawn). Er y bydd y ddau yn cyfrannu at gyfeiriad cyffredinol Ysgol y Graddedigion, bydd Matt yn ysgwyddo cyfrifoldeb penodol am les myfyrwyr ymchwil uwchraddedig a'r Concordat i Gefnogi Datblygiad Gyrfa Ymchwilwyr; a Mitch am y rhaglen ddatblygu goruchwylwyr ymchwil uwchraddedig a'r Grŵp Ymgysylltu Myfyrwyr Ymchwil. Bydd Mitch yn parhau (ar 0.4 FTE yn ychwanegol) i gyflwyno hyfforddiant ansoddol a chynllunio ymchwil a chyfrannu at y rhaglen Addysgu i Uwchraddedigion ym Mhrifysgol Aberystwyth (AUMA).

Rydym wedi ymestyn rôl Dr Sophie Bennett-Gillison, sef Dirprwy Bennaeth y Rhaglen Ddoethuriaeth Broffesiynol (DProf), i 0.3 FTE. Bydd yn datblygu ein darpariaeth ar gyfer myfyrwyr DProf, ond bydd hefyd yn cyfrannu'n benodol at ein rhaglenni cynefino, AUMA a datblygu goruchwylwyr.

Yn ddiweddar, dechreuodd Dr Peter Wootton-Beard (IBERS) a Dr Sam Doyle (Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear) weithio yn Ysgol y Graddedigion (fel Uwch Gymrawd Addysgu 0.1 FTE a Darlithydd 0.3 FTE, yn y drefn honno) a byddant yn cynorthwyo gyda dysgu hybrid a'n darpariaeth feintiol, yn y drefn honno. Rydym hefyd wedi ffurfioli'r gefnogaeth ysgrifennu, cydlynu modiwlau ac addysgu a ddarperir gan Dr John Morgan (0.2 FTE) ar gyfer ein myfyrwyr uwchraddedig. Bydd John hefyd yn ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol o fewn y ddarpariaeth DProf a chynefino.

Er mwyn datblygu'r Concordat i Gefnogi Datblygiad Gyrfa Ymchwilwyr, rydym wedi penodi Dr Sarah Wydall yn Arweinydd Academaidd (0.25 FTE) a Dr Otar Akanyeti yn Ddirprwy Arweinydd Academaidd (0.15 FTE). Bydd y ddau yn arwain ymdrechion cynyddol y Brifysgol i greu amgylchedd ymchwil iach, cynhwysol a chefnogol lle mae ymchwilwyr yn cael eu recriwtio, eu cyflogi a'u rheoli dan amodau sy'n cydnabod ac yn gwerthfawrogi eu cyfraniadau, ac yn cael amser a chyfleoedd i ddatblygu'n bersonol a phroffesiynol. Bydd y tîm Concordat hefyd yn cyfrannu at y gwaith o gynllunio a chyflwyno rhaglen Arweinyddiaeth Ymchwil Aberystwyth-Bangor.

Cefnogir pob un ohonynt yn arbenigol gan dîm ehangach Ysgol y Graddedigion, sy'n cynnwys Jan Davies (Cofrestrydd Cynorthwyol), Shân Jones (Swyddog Gweinyddol), Julie Hancox (Gweinyddwr DProf), a Claire Salter (Cynorthwyydd Gweinyddol y Gofrestrfa Academaidd), a gellir cysylltu â phob un trwy gyfeiriad e-bost ysgol.graddedigion@aber.ac.uk. Yn olaf, mae Dr Alan Macmillan (Cofrestrydd y Gyfadran Busnes a Gwyddorau Ffisegol), yn gyfrifol am Ysgol y Graddedigion o fewn y Gofrestrfa Academaidd ac yn goruchwylio polisi, rheoliadau a sicrwydd ansawdd TAR.

O'r chwith i'r dde:

Jan Davies
Mitch Rose
Sarah Wydall
Peter Wootton-Beard
Alan Macmillan
Reyer Zwiggelaar
Julie Hancox
Claire Salter
Samuel Doyle
Sophie Bennett-Gillison
Otar Akanyeti
John Morgan



# Teithio i'r gwaith

Yn ddiweddar, lansiodd y Brifysgol ei Harolwg Cymudo blynyddol ar gyfer y staff, er mwyn casglu gwybodaeth am sut mae aelodau o staff yn teithio i'r gwaith.



Mae canlyniadau'r arolwg yn helpu'r Tîm Cynaliadwyedd i nodi blaenoriaethau ac archwilio ffyrdd o leihau allyriadau yn sgil teithio, wrth i ni weithio tuag at ein huchelgais o fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

Fe gymer tua 5 munud i gwblhau'r arolwg, yn ddienw, ac mae ar gael yma: https://forms.office.com/e/3NDBDkEBUu



# Rhandir Ail Ryfel Byd Aber ar gampws Penglais

Ers gwanwyn 2022, mae arbrawf 'hanes byw' newydd wedi bod yn cael ei gynnal yn y cae rhwng llety myfyrwyr Fferm Penglais a Phentre Jane Morgan.

Cafodd Rhandir Ail Ryfel Byd Aber ei lansio’n wreiddiol fel gweithgaredd oedd yn ddiogel o ran Covid yn rhan o brosiect yr Adran Hanes a Hanes Cymru, *Lleisiau’r Bobl yn Rhyfel y Bobl: Aberystwyth 1939-45*. Cafodd y rhandir ei ysbrydoli gan bamffled o 1942 a oedd yn annog pobl i ddefnyddio eu gerddi i dyfu llysiau (ymgyrch 'Dig for Victory'). Y bwriad yw rhoi cyfle i fyfyrwyr, staff a gwirfoddolwyr o’r gymuned gael profiad o ddulliau garddio'r gorffennol, tyfu eu llysiau eu hunain, cyfrannu at gynaliadwyedd bwyd y gymuned a mwynhau rhan newydd, werdd o’r campws.



*Chwyn oedd wedi hen ymsefydlu, cyn trin y tir*

Rhaid cyfaddef mai arbrawf oedd y llynedd. Nid oedd y darn hwn o dir erioed wedi cael ei drin o'r blaen, felly roedd y chwynnu yn frwydr gyson. Llwyddodd y cwningod oedd yn byw yn y cae i fwyta ein holl bys a'n ffa Ffrengig. Roeddem yn rhyfeddu faint o nionod yr oedd garddwyr adeg y rhyfel yn ceisio eu tyfu (wyth rhes, tua 400 o blanhigion - llawer, llawer mwy na ni). Ond roeddem yn synnu hefyd faint o datws y bu inni lwyddo i'w tyfu (sawl llond sach); pa mor doreithiog oedd ein ffa a'n ffa dringo (disgyblion Dosbarth 1 Ysgol Gatholig Padarn Sant fu'n plannu'r rhain), er gwaethaf y diffyg glaw; a pha mor enfawr y tyfodd ein bresych crych.



Gwirfoddolwyr, Yi a Julio, gyda bresych savoy

Er gwaethaf y sychder (a'r cwningod) roedd gennym lysiau i'w cynaeafu o fis Gorffennaf tan fis Rhagfyr, gan gynnwys ffa a ffa dringo, sibols, nionod, tatws, tri math o fresych, moron, cennin, ysgewyll, sbigoglys parhaol a chêl. Cafodd ein cynnyrch ei rannu ymhlith ein gwirfoddolwyr a'i roi i Fwyd Dros Ben Aber a chaffi 'talu fel y mynnwch' Canolfan Fethodistaidd Sant Paul.

Fe ddysgon ni cwpwl o bethau am arddio yn ystod cyfnod y rhyfel, yn enwedig faint o amser ac ymdrech a roddwyd ar y pryd, ar adeg pan oedd bywydau pawb eisoes mor brysur. Ond hefyd, pa mor hynod o ddefnyddiol a synhwyrol oedd rhelyw y canllawiau, y taflenni a'r llyfrau garddio adeg y rhyfel. Gwers arall oedd yr angen i gyfaddawdu o safbwynt rhai agweddau ar arddio yn ystod adeg y rhyfel. Nid oedd unrhyw un yn ein plith yn rhy hoff o'r arfer o



Gwirfoddoli, Kate gyda rhywfaint o'r cynnyrch



Gwirfoddolwr, Hannah, yn plannu sialóts

balu dwfn. Roedd plannu mewn rhesi hefyd yn syniad dieithr i'r rhai a oedd yn fwy cyfarwydd â chyd-blannu. Ac fe synnem rywfaint hefyd at ddibyniaeth y garddwr nodweddiadol adeg y rhyfel ar gymorth cemegion (yn enwedig chwistrelli nicotin, sy'n hynod o wenwynig ac yn anghyfreithlon bellach, diolch byth). Yn hytrach, cawsom ein hysbrydoli gan gyhoeddiad mwy proffwydol o gyfnod y rhyfel, sef maniffesto organig y Fonesig Eve Balfour, The Living Soil (1943).

Eleni mae'r rhandir wedi elwa'n aruthrol o haelioni Tyfu Dyfi, sef prosiect Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles Llywodraeth Cymru, sydd wedi rhoi ffens addas i ni er mwyn atal cwningod, sied cadw offer a dwy fainc yr ydym yn eu gwerthfawrogi'n fawr. Rydym ni bellach ar ail flwyddyn ein cylchdro tair blynedd o gnydau cyfnod y rhyfel, ac wedi plannu ystod ehangach o lysiau, gyda chymorth y Llyfrgell Hadau Traddodiadol. Mae ein pys a'n ffa yn blodeuo ac mae ffa dringo Padarn Sant yn ffynnu. Mae nifer ein gwirfoddolwyr yn parhau i gynyddu, ac yn cynnwys myfyrwyr, staff a garddwyr o'r gymuned.

Rhandir Ail Ryfel Byd Aber yw elfen gyntaf prosiect 'Yr Ardd Hanes Byw' y bwriedir ei gynnal ar y safle, a bydd yn cynnwys gardd berlysiau ganoloesol, plotiau garddio ar gyfer y myfyrwyr a'r gymuned, a pherllan o goed ffrwythau traddodiadol i nodi pen blwydd y Brifysgol yn 150. Rydym yn gobeithio datblygu'r prosiect fel y gellir ei ddefnyddio wrth ddysgu ac mewn gweithgareddau estyn allan gydag ysgolion. Y tu hwnt i unrhyw wersi hanesyddol, fodd bynnag, mae rhandir Ail Ryfel Byd Aber yn dangos gwerth garddio, ar gyfer gweithgareddau awyr agored, er mwyn bwyta'n iach ac yn gynaliadwy, ac er mwyn lles.



*Ffa Padarn Sant*



*Y ffens newydd i atal cwningod, Ebrill 2023*



*Cynnyrch ar gyfer Gwarged Bwyd Aber*

**Hoffech chi wybod mwy?**

Os hoffech ddysgu mwy, gwirfoddoli, a/neu dderbyn ein diweddariadau e-bost wythnosol, cysylltwch â'r Athro Siân Nicholas yn yr Adran Hanes a Hanes Cymru, shn@aber.ac.uk

# KEEZLE WACKA

Our regular article from the University's Information Governance Team highlighting just a few of the extraordinary items preserved for posterity in the University archive.

## Graduation through the ages

Gan ein bod bellach wedi mynd heibio'r diwrnod hiraf, rydym ni hefyd yn rhuthro tuag at ddiwedd blwyddyn academaidd arall, a dim ond un peth y mae hynny'n ei olygu - graddio.

Ar ôl dwy flynedd heb seremonïau oherwydd Covid cawsom ddigwyddiad anferth y llynedd, ond bydd y graddio eleni ychydig yn fwy cryno ac fe'i cynhelir dros dridiau yn Neuadd Fawr Canolfan y Celfyddydau.


Yn 1971, gyda thwf campws Penglais yn y 60au a'r 70au, y croesawyd dathliadau graddio myfyrwyr y Brifysgol i'r Neuadd Fawr am y tro cyntaf. Dyna i chi barti! Ac ers ychwanegu La Scala at y piazza yn 2003, nid oes golygfa hapusach na gweld y capiau'n hedfan yn eu cannoedd uwch y grisiau, yn binacl i flynyddoedd o weithio'n galed ac astudio'n gydwybodol.



*Graddio 2019*

Mae lleoliad y seremoni raddio wedi newid sawl gwaith dros y blynyddoedd. Cynhaliwyd y seremoni raddio fawr gyntaf ar 26 Mehefin 1896 ym Mhafiliwn y Pier Brenhinol, a oedd newydd gael ei gwblhau. Roedd hyn ar ôl caniatáu'r Siarter Frenhinol a olygai y gallai'r Brifysgol ddyfarnu ei graddau ei hun.

Un gwahaniaeth amlwg, ar ôl 1902, yw y byddai pob un o golegau cyfansoddol Prifysgol Cymru yn cymryd ei dro i groesawu ei chwaer-golegau fel y gwelir isod yn y llun o raddedigion Aber ar daith yn 1920.




*Seremoni'r Capiau, Bangor, 15 Gorffennaf 1920 – Graddedigion Aberystwyth*

Yn 1907, cynhaliwyd y graddio ar 22 Tachwedd yn y Coliseum (sydd bellach yn rhan o'r amgueddfa ar Ffordd y Môr) ac yna yn Neuadd y Plwyf, cyn symud yn 1923 i adeilad newydd, Neuadd y Coleg ar Ffordd y Gogledd, oedd â 3,000 o seddi. Yn anffodus, dinistriwyd Neuadd y Coleg gan dân ar ddydd Sul 13 Awst 1933, a daeth Neuadd y Plwyf unwaith eto i'r adwy i lenwi'r bwlch dros dro. Yna daeth Neuadd y Brenin yn lleoliad i'n seremonïau graddio ni cyn iddo hefyd gael ei ddymchwel yn y pen draw. Roedd yr orymdaith o'r Hen Goleg ar hyd y Prom i Neuadd y Brenin yn achlysur blynyddol pwysig yn Aberystwyth.




Neuadd y Coleg, Aberystwyth




Menywod mewn cap a gŵn gyferbyn â Neuadd y Brenin

Mae amserlen diwrnod graddio hefyd wedi gweld newid, ac mae'n naturiol gofyn felly sut brofiad ydoedd yn y gorffennol?

I ddechrau, cynhaliwyd y seremoni yn flynyddol ym mis Tachwedd. Fodd bynnag, ar 22 Tachwedd 1907, yn y Coliseum, trodd y seremoni yn gythrwfl enfawr o du'r myfyrwyr a bu'n rhaid dod â'r digwyddiad i ben cyn i'r holl raddau gael eu dyfarnu. Yn dilyn hyn penderfynodd y Brifysgol y byddai'r seremoni raddio yn cael ei chynnal ym mis Gorffennaf o hynny ymlaen.

Yn ddiweddar cafwyd cyfle i droi at gofnodion yn yr archifau ac o ganlyniad cawn gipolwg ar y cynulliad graddio a'r seremonïau graddio a gynhaliwyd yn 1953 ac 1967.

Yn 1953, cynhaliwyd y seremoni yn Neuadd y Brenin ac roedd Cân y Coleg yn rhan o Drefn y Cyfarfod.



PRIFYSGOL CYMRU — UNIVERSITY OF WALES

SCIENTIA INGENIUM ARTES

CONGREGATION OF THE UNIVERSITY
to be held in the
KING'S HALL, ABERYSTWYTH,
on TUESDAY, 21 JULY, 1953, at 2.30 p.m.

ORDER OF PROCEEDINGS.

Procession of the Mayor and Town Council of Aberystwyth entering the Congregation.

Procession of the University and College Officers entering the Congregation.

The College Song.


COLLEGE SONG.

Some boast their classic stream
Where nymphs and naiads dream,
Their buildings touched by Time till old and grey.
Our College towers in pride
By the Western Waters side
Where wild waves vainly beat along the bay.

*Chorus*—
"What may your motto be, O College by the sea ?"
"Nid byd, byd heb wybodaeth," answer we,
Rage ye gales ! Ye surges seethe !
Aberystwyth fu a fydd !

Proclamation of the Congregation.

Declaration of a resolution of the Court authorising the admission of graduands to degrees and honours.




University College of Wales, Aberystwyth
1872-1947

STUDENT'S TICKET

Graduation Ceremony
IN THE KING'S HALL, ABERYSTWYTH
on Saturday, 25th October, at 11 a.m.
Doors Open 10 a.m.
*Ticket holders are requested to be seated before 10-45 a.m.*

Ticket of admission — not transferable



Prifysgol Cymru — University of Wales

Graduation Ceremony
in the
KING'S HALL, ABERYSTWYTH
Thursday, July 29th, 1948, at 2.30 p.m.

GRADUAND'S FRIEND

Admission at the main entrance, King's Hall


Doors open 2 p.m.
Ticket holders are requested to be seated before 2.15 p.m

Yn 1967, roedd y canllawiau ar gyfer gwisg braidd yn gyfyng. Nodwyd y dylai myfyrwyr gwrywaidd wisgo siwtiau tywyll, coleri gwyn a thei'r Coleg ac y dylai myfyrwyr benywaidd wisgo sgertiau tywyll, hosanau, blowsiau gwyn a thei'r Coleg. Yn wir, mae'r oes wedi newid!



*Yr orymdaith graddio yn y 1960au, dan arweiniad y Prifathro Syr Thomas Parry*

Mae'r gwisgoedd a'r capiau academaidd bellach yn cael eu harchebu ar-lein trwy J Wippell & Co. Ltd., Gwisgoedd Academaidd, Caerwysg am bris o £69 (gwisg israddedig). Mae'n ddiddorol nodi bod y sawl a oedd yn graddio yn ôl yn 1967 yn cael dewis defnydd ei wisg a'i gwfl ac roedd dewis o gapiau hefyd.



EDE & RAVENSCROFT LTD. 1967
93-94 CHANCERY LANE, LONDON, W.C.2
Official Robemakers to the University

Wales University Degree Ceremony

Please complete the form below and RETURN IMMEDIATELY together with the appropriate amount of money. If Hired, the robes will be in the robing room provided by the University prior to the Ceremony, and should be returned there immediately afterwards. Should extra time have been paid for they should be returned, as per label supplied, within 7 days, but if retained longer they will be liable to an extra charge.

**NEW** Bachelors' Degrees

| | | |
|---|---|---|
| Gowns— | Twill ... ... | £5 18 6 |
| | Rayon Cord ... ... | £7 7 0 |
| | Russell Cord ... ... | £8 19 6 |
| Hoods— | Art Silk ... ... | £4 7 0 |
| | Russell Cord ... ... | £3 18 6 |
| | Rayon Cord ... ... | £2 17 0 |
| | M.B. £4 19 6 B.Mus. | £5 17 0 |
| Caps— | folding skull £1 7 6 hard skull | £2 7 6 |


Prices for Doctors' and Masters Robes on Application

**HIRE** Charges for Robes:

| | Bachelors Incl. M.B. | Masters | Doctors |
|---|---|---|---|
| For Ceremony ... ... ... ... | 30/- | 35/- | 65/- |
| For additional time (*up to one week*) | 10/- | 15/- | 20/- |

★ **Orders (with remittance) must be placed immediately**

Cynhaliwyd dawns raddio yn Neuadd y Brenin ar noswyl y seremoni ac, fel y byddech yn disgwyl, roedd y coleg yn gwahodd teulu a ffrindiau i de yn y cwad yn syth ar ôl y seremoni. Paned o de oedd y traddodiad yn y dyddiau hynny a doedd dim diferyn o siampên ar gael.



PRIFYSGOL CYMRU
UNIVERSITY OF WALES Nº 457

**ADMIT TO TEA**

IN THE COLLEGE QUADRANGLE
4-00 — 5-30 p.m.
on Graduation Day, Tuesday, 25th July, 1967

A/L/M/ESS

A chredwch neu beidio, cyn i raddedigion gael eu derbyn i'w graddau roedd gofyn iddynt lofnodi Cofrestr Prifysgol Cymru. Mae pob tudalen o'r gofrestr yn dechrau gyda datganiad sy'n nodi bod y myfyriwr yn rhoi ei lw ac yn addo i Ganghellor y Brifysgol y bydd yn cynnal ac yn hyrwyddo'r Brifysgol, ei hanrhydedd, ei henw da a'i diogelwch; na fydd byth yn anghofio budd yr wybodaeth a roddwyd iddo, na'i rhoi i ddibenion gwael, ond yn hytrach yn byw'n anrhydeddus i gynyddu, ymestyn a lledaenu gwybodaeth hyd eithaf ei allu.

Mae'n teimlo fel petai graddedigion Aber yn gwneud gwaith da o gynnal yr egwyddorion hyn, ond efallai ei bod hi'n hen bryd i ni greu ein hadduned ein hunain?

**Pam "Keezle Wacka"?**

*Mae teitl y golofn wedi deillio o 'Floedd y Coleg', sy'n tarddu o 1905 pan benderfynwyd cael siant y gellid ei defnyddio i gefnogi myfyrwyr Aber mewn digwyddiadau chwaraeon rhyng-golegol. Yn dilyn cystadleuaeth yng Nghwad yr Hen Goleg, pan gyflwynwyd sawl bloedd bosibl gan eu cyfansoddwyr, cafodd y floedd fuddugol ei dewis. Cafodd yr ymadrodd 'Keezle Wacka', a ddefnyddir ym Mloedd y Coleg, ei ddewis yn ddiweddarach fel teitl ar gyfer cylchgrawn RAG Aberystwyth a gyhoeddwyd am sawl degawd, ac roedd hefyd yn deitl trawiadol ar gyfer y golofn hon*

**Colofn UMAber**

# Dyma'r diweddaraf gan UMAber

Wrth i'r flwyddyn academaidd 2022-23 dod i ben dyn ni wedi cynnal a mynychu nifer o ddigwyddiadau dathlu felly dyma rannu ychydig o lwyddiannau yn rhifyn diweddaraf NewyddionAber

## Yr Etholiadau

Ym mis Mawrth, fe welwyd 24% o fyfyrwyr Aber yn bwrw pleidlais dros dîm y swyddogion llawn amser nesaf a gwirfoddol i arwain yr Undeb a chynrychioli myfyrwyr Aber.

Llongyfarchiadau i'r holl ymgeiswyr a phob lwc i'r tîm swyddogion olynol;

**Llywydd yr UM**
Bayanda Vundamina (Bio-cemeg)

**Llywydd UMCA a Swyddog Diwylliant Cymru**
Elain Gwynedd (Cymraeg)

**Swyddog Cyfleoedd Myfyrwyr**
Tiff McWilliams (Seicoleg)

**Swyddog Materion Academaidd**
Anna Simpkins (Llên Saesneg)

**Swyddog Llesiant**
Helen Cooper (Llên Saesneg)

Gellir gweld canlyniadau llawn yr etholiadau yma.

## UMAber yn Dathlu

Cynhaliwyd UMAber yn Dathlu fis Mai gyda'n dau brif ddigwyddiad; y Gwobrau Addysgu, Dysgu a'r Profiad Myfyrwyr a Gwobrau y Chwaraeon a Chymdeithasau a gwelwyd y digwyddiadau yn dychwelyd i'r UM am y tro cyntaf ers blynyddoedd.

Cafwyd 858 o enwebiadau eleni.

Canlyniadau Gwobrau'r Cymdeithasau

Canlyniadau Gwobrau'r Chwaraeon

Y Gwobrau Addysgu, Dysgu a'r Profiad Myfyrwyr

## Arolwg Ymgysylltu Gweithwyr

Mae'n bleser mawr gennym ni gyhoeddi canlyniadau ein Arolwg Ymgysylltu Gweithwyr 2023, sy'n dangos ein bod ni bron â bod yn cyrraedd yn uwch ym mhopeth na'n grŵp cyfoedion ni (yr holl Undebau Myfyrwyr a sefydliadau trydydd sector a gymerodd ran) heblaw am ychydig o feysydd a datganiadau.

## Gwobrau WhatUni

Buom ni wrth ein boddau i weld Aberystwyth yn ennill Categori Bywyd Myfyrwyr yn ddiweddar yng Ngwobrau Dewis y Myfyrwyr WhatUni 2023.

Mae hyn yn tynnu sylw at waith caled ac ymrwymiad tîm staff Undeb y Myfyrwyr i ddarparu cyfleoedd i fyfyrwyr gael y profiad gorau posibl yma yn Aberystwyth; o ddewis o dros 100 o Glybiau Chwaraeon a Chymdeithasau, ystod o brofiadau gwirfoddoli ar gael ac ystod o ddigwyddiadau yn cynnig cyfleoedd i ddarganfod eich cymuned UMAber.




## Effeithiau Allweddol 2022-23

- Mae hanner o holl fyfyrwyr Aberystwyth wedi cymryd rhan yn yr UM un ai trwy ddemocratiaeth, gwirfoddoli, clybiau neu gymdeithasau neu drwy fod yn Gynrychiolydd Academaidd.
- Mae ein Gwasanaeth Ymgynghori wedi rhoi cymorth uniongyrchol i 319 o achosion myfyrwyr ac ymwelwyd â'n gwefan wybodaeth a chyngor 12,572 o weithiau.
- Cofnodwyd 8,323 o oriau gwirfoddoli gan y 116 o fyfyrwyr a gofrestrwyd fel gwirfoddolwyr eleni.
- Mae dros hanner o fyfyrwyr Aber wedi bod yn rhan o un o'n grwpiau Tîm Aber; 43 Clwb Chwaraeon a 78 Cymdeithas.
- Gwelwyd 27 o dimau chwaraeon Aberystwyth yn cystadlu mewn 520 cystadleuaeth BUCS ac ennill 52 gêm.
- Etholwyd 278 o Gynrychiolwyr Academaidd eleni.

# Yn ogystal â'r swydd bob dydd...


Helen Jones

Bydd llawer ohonoch yn adnabod Helen Jones yn rhinwedd ei swydd fel Cyfarwyddwr Ymchwil, Busnes ac Arloesi (YBA). Efallai y bydd llai ohonoch yn gwybod bod Helen, yn ogystal â'r swydd bob dydd, yn chwaraewr pêl-feddal brwd.

Ym mis Tachwedd 2022, teithiodd Helen i'r Traeth Aur yn Queensland, Awstralia i gystadlu yng ngemau'r Pan Pacific Masters. Gofynnom iddi ddweud wrthym am ei mwynhad o bêl-feddal ac am ei thaith.

**Allwch chi esbonio beth yw pêl-feddal?**

Mae'n gêm debyg i bêl fas ond bod y bêl yn fwy a'r cae yn llai. Hefyd, mae mwy o gyfyngiadau o ran pryd y gallwch redeg, a dim ond dan ysgwydd y gallwch daflu.

Mae'n cael ei chwarae yn gystadleuol ar lefel clybiau, lefel colegau, ac ar y lefel broffesiynol. Crëwyd y gêm yn 1887 ac mae'n un o'r chwaraeon cymdeithasol mwyaf poblogaidd yn arfordir dwyreiniol Awstralia, ond mae wedi bod yn gamp Olympaidd swyddogol hefyd.

Dyw'r bêl ddim yn feddal – o gwbl. Mae wedi torri pedwar o 'mysedd, dau o fysedd fy nhraed ac ambell asgwrn ar gefn fy llaw dros y blynyddoedd lawer o chwarae yn New South Wales a Queensland!

Mae dau fath o'r gêm; Slowpitch - yn debycach i rownderi, a Fastpitch - sy'n symud yn gyflymach na phêl fas ac mae'r tafliadau rhwng 40-50mya yn y radd dwi'n ei chwarae.






**Sut ddechreuoch chi chwarae pêl-feddal?**

Dechreuais chwarae pan symudais i Awstralia yn 2000, yn bennaf i wneud ffrindiau newydd. Fel arfer mae tua 15 chwaraewr mewn tîm cymdeithasol, ond rydyn ni'n chwarae â 9 chwaraewr yn unig. Mae'n gynghrair wedi'i graddio ac roedd yn rhaid i mi ddechrau chwarae ar y lefel isaf: "Gradd y menywod" lle'r oedd y gemau fel sgetsh gomedi. Ond yn raddol symudais i fyny i lefelau mwy cystadleuol. Chwaraeais am sawl blynyddyn yng nghynghrair Traethau Gogleddol Sydney a phan

symudais ymhellach i'r gogledd, chwaraeais yng nghynghreiriau Redlands a Redcliff yn Queensland.

**Beth yw'r peth gorau am chwarae pêl-feddal?**

Taro'r bêl ymhell a sgorio rhediad cartref gyda thîm o fenywod canol-oed yn bloeddio ac yn dathlu ar ochr y cae.

**A'r peth gwaethaf?**

Ar wahân i golli cymaint o groen oddi ar fy nghoesau trwy lithro ar y graean (fy mai i), byddwn i'n dweud llosgi yn yr haul yn ystod y batiadau hir.

**Dywedwch wrthym am eich taith i'r Traeth Aur i gystadlu yng ngemau'r Pan Pacific Masters.**

Gemau'r Pan Pacific Masters yw'r digwyddiad eilflwydd mwyaf o'i fath yn y byd, ychydig fel 'spring break' i hen bobl ond gyda chwaraeon! Mae'n rhaid i chi fod dros 35 oed i gymryd rhan ac nid oes cyfyngiad oedran uchaf.

Mae dros 40 o gampau a thua 16,000 o gystadleuwyr o bob rhan o ranbarth Asia a'r Môr Tawel yn heidio i draethau'r Traeth Aur yn Queensland tua mis Tachwedd.

Roedd bron i 120 o dimau yn chwarae yng nghategori pêl-feddal menywod y llynedd. Rwy'n cystadlu gyda fy nhîm blaenorol o Sydney sydd wedi parhau'n ffrindiau cadarn i mi er fy 'mod i wedi symud i lefydd amrywiol ers gadael Sydney yn 2013.

Rydyn ni'n chwarae dwy gêm y dydd dros wythnos yn erbyn timau o Awstralia a llawer o wledydd eraill, gan gynnwys Ffiji, Japan, Seland Newydd a bron yn ddieithriad yn chwarae yn erbyn tîm lleol arall o Sydney - rydyn ni fel arfer yn chwarae'r gêm honno ar ôl yfed gormod y noson gynt.

**A oes unrhyw beth yr hoffech ei ychwanegu i gloi?**

Mae chwaraeon yn wastatäwr gwych, ac mae chwarae pêl-feddal bob amser yn fy atgoffa nad oes angen i chi fod yn dda ym mhopeth - yr hyn sy'n bwysig yw gwybod beth yw eich cryfderau a sut mae'r rhain yn ategu cryfderau gweddill y tîm. Hefyd, gan nad ydyn ni byth yn ennill, byddwn i'n dweud nad yw ennill mor bwysig â chael hwyl.



# Penodiadau

Croeso cynnes i gydweithwyr a ymunodd â’r Brifysgol yn y misoedd diwethaf, gan gynnwys:

## CANOLFAN Y CELFYDDYDAU ABERYSTWYTH



Mae **David Wilson** newydd ddechrau ar ei swydd fel Cyfarwyddwr newydd Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth. Yn actor proffesiynol yn wreiddiol, ac un o gyn-fyfyrwyr Aberystwyth (Drama), cwblhaodd David ddiploma uwchraddedig ym maes Rheoli’r Celfyddydau yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Mae'n gyd-sylfaenydd Actors Workshop a hefyd yn gyd-sylfaenydd Porter's yng Nghaerdydd. Bu’n gweithio i Ŵyl Ryngwladol Theatr Gerdd Caerdydd cyn cael ei benodi yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Diversions (sef Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru yn ddiweddarach). Mae David yn ymuno â ni o Theatr Brycheiniog, Aberhonddu, lle bu'n Gyfarwyddwr ers 2019.

## ATHROFA'R GWYDDORAU BIOLEGOL, AMGYLCHEDDOL A GWLEDIG (IBERS)




Mae'r **Athro Gancho Slavov** wedi'i benodi'n Gadeirydd Genomeg Cnydau Germinal yn Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae penodiad yr academydd yn rhan o fuddsoddiad parhaus mewn ymchwil flaengar gan Germinal a’r Brifysgol ar fridio mathau newydd o laswellt a phorthiant amaethyddol. Mae gan yr Athro Slavov bron i 20 mlynedd o brofiad ymchwil ôl-ddoethurol mewn geneteg planhigion a genomeg, gan gynnwys rhaglenni bridio gweithredol ar raddfa fawr yn seiliedig ar ddethol genomig. Ar ôl gweithio gydag ymchwilwyr a bridwyr ledled y byd, daw ag arbenigedd rhyngwladol i Brifysgol Aberystwyth o’i swydd ddiweddaraf yn Seland Newydd.

## ADRAN YMCHWIL, BUSNES AC ARLOESI



Mae **Ed Geuter** wedi ymuno â'r Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi fel Rheolwr Rhaglen. Yn wreiddiol o Aberystwyth, mae Ed wedi cael swyddi amrywiol yn y lluoedd arfog gan gynnwys swyddogaethau arweiniol, gweithredol, yn rheoli rhaglen a hyfforddi. Astudiodd gyda'r Brifysgol Agored ac Ysgol Fusnes Henley a bu'n rhan o uwch dîm arweinyddiaeth mewn gwaith ymgynghori cyn dychwelyd i Aberystwyth i hyfforddi a rheoli timau Chwilio ac Achub Gwylwyr y Glannau EF ledled Cymru.

## CANOLFAN ADDYSG GOFAL IECHYD



Mae **Nicole Crimmings** wedi ymuno fel Darlithydd Gofal Iechyd. Mae Nicole yn nyrs bediatrig gofrestredig gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae hi hefyd yn ymarferydd arbenigol cofrestredig ym maes gofal dwys pediatrig, ac yn Nyrs Gymunedol Arbenigol ym maes Iechyd Cyhoeddus (Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd), â’i gyrfa yn ymestyn dros bron i 30 mlynedd. Cyn hynny, bu'n gweithio fel Arweinydd Cymorth i Deuluoedd yn hosbis blant Tŷ Hafan yn Sili ger Caerdydd. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys datblygu a llunio gwasanaeth a fyddai'n rhoi’r cymorth gorau i deuluoedd a gofalwyr plant a phobl ifanc oedd â’u bywydau wedi eu byrhau, mewn cyfnod pan oedd pandemig COVID-19 yn datblygu'n gyflym - gwaith y cafodd hi a chydweithiwr eu henwebu ar gyfer gwobr Nyrs y Flwyddyn, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru.



Mae **Lisa Kinsella** wedi ymuno fel Darlithydd Addysg Gofal Iechyd. Cymhwysodd Lisa fel Nyrs Iechyd Meddwl yn 1998 ac mae wedi gweithio yn y GIG am bron i 25 o flynyddoedd, i ddechrau mewn uned aciwt i gleifion mewnol, yna mewn ysbyty dydd, ac yna fel Nyrs Seiciatrig Gymunedol. Mae hi wedi astudio fel Seicotherapydd Systemig a Theulu hyd at lefel MSc gan dreulio cyfnod byr yn astudio Seicotherapi Seicoddeinamig yn Tavistock & Portman. Mae diddordebau ymchwil Lisa yn cynnwys profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, y Model Trosglwyddo Tlodi Ar Draws y Cenedlaethau, Iechyd Meddwl Amenedigol, Anhwylderau Bwyta, Trawma Plentyndod Cynnar a Damcaniaeth Ymlyniad.



Ddarlithydd Addysg Gofal Iechyd yw **Matt Townsend** ac mae'n ymuno â'r Brifysgol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda lle bu'n gweithio fel Nyrs Gofrestredig yn arbenigo mewn Nyrsio Gofal Dwys. Ochr yn ochr â hyn, bu Matt yn gweithio fel academydd clinigol ac mae wedi ymchwilio a chyhoeddi ar byncaiu: Canser y Coluddyn; Gofal Diwedd Oes; a Covid-19. Mae'n hynod weithgar o ran ymchwil a'i ddiddordeb yn y meysydd canlynol: gofal iechyd sy'n LHDTC+ gynhwysol; marwolaeth a marw; gwella ansawdd a newid methodoleg ym maes gofal iechyd.

## CYFADRAN BUSNES A'R GWYDDORAU FFISEGOL



Mae'r **Athro Nigel Copner** wedi ei benodi i sefydlu a datblygu Uned Beirianneg newydd y Brifysgol, ac mae eisoes wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth sefydlu cyfres o raddau newydd mewn Peirianneg Drydanol ac Electronig sydd â phwyslais ar baratoi graddedigion ar gyfer swyddi yn y dyfodol o fewn cyd-destun sy'n ymwneud â chynaliadwyedd. Mae ganddo eisoes hanes trawiadol o ymchwil, arloesi a masnacheiddio (>40 patent), ac mae'n edrych ymlaen at gydweithio ar fwy o brosiectau gyda chydweithwyr yn Aber.

## YR ADRAN GYFRIFIADUREG



Mae **Dr Muhammad Aslam** wedi ymuno â'r adran fel darlithydd. Cyn hyn, bu'n ddarlithydd ym Mhrifysgol Gorllewin yr Alban. Mae gan Dr Aslam radd MS o'r Adran Beirianneg Drydanol (Rhwydweithio) ym Mhrifysgol COMSATS Islamabad (Pacistan) a gradd PhD o'r Ysgol Cyfrifiadureg a Thechnoleg ym Mhrifysgol Technoleg Dalian yn Dalian (Tsieina). Fel ysgolhaig ymchwil ôl-ddoethurol, roedd yn gysylltiedig â'r Ysgol Seiberwyddoniaeth a Pheirianneg ym Mhrifysgol Wuhan, lle cymerodd ran yn y Rhaglen Ôl-ddoethurol Cyfnewid Cymrodoriaeth Ryngwladol. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn cynnwys Dysgu Peirianyddol, Seiberddiogelwch, Rhwydweithio a Ddiffinnir gan Feddalwedd, Rhwydweithiau Synhwyrydd Di-wifr, a Diogelwch Rhwydwaith.

## ADNODDAU DYNOL



Mae **James Thomas** wedi ymuno â thîm cyflogres yr adran Adnoddau Dynol fel Rheolwr Cyflogres a Buddion. Mae'n hanu o Aberystwyth a chyn dechrau gweithio i'r Brifysgol roedd James yn gweithio fel cyfrifydd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth, gan arbenigo mewn Cyflogres a Phensiynau.

## ADRAN HANES A HANES CYMRU



Mae **Dr Diana Valencia-Duarte** wedi ymuno â'r adran fel Darlithydd Hanes y De Byd-eang, gan ganolbwyntio ar hanes amgylcheddol America Ladin a'r Caribî. Mae gan Diana PhD mewn Hanes o Brifysgol Caerwysg. Roedd ei thraethawd ymchwil, *The Peasant Food Question,* yn cyfuno hanes cymharol amgylcheddol ac Astudiaethau Amaethyddol Beirniadol, er mwyn astudio effeithiau ymarferol polisïau amaethyddol dros bum degawd yng Ngholombia. Yn fwyaf diweddar, roedd hi'n ymchwilydd ôl-ddoethurol i brosiect Prifysgol Bryste, *'Memories from the margins'.*

# Penaethiaid Adrannau newydd

Mae tri Phennaeth Adran newydd wedi'u penodi yng Nghyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol.



Bydd yr **Athro Catrin Webster** yn ymuno â ni fel Pennaeth newydd yr Ysgol Gelf ym mis Medi. Mae Catrin yn Athro Celfyddyd Gain yn ymuno â ni o Camberwell, Prifysgol y Celfyddydau Llundain, lle mae'n Gyfarwyddwr Rhaglen BA ac MA Celfyddyd Gain, ac yn arwain a rheoli portfffolio rhyngddisgyblaethol o gyrsiau. Bu'n Gyfarwyddwr Rhaglen Graddau Ymchwil, portffolio Deialogau Cyfoes y Radd Meistr a BA Celfyddyd Gain yng Ngholeg Celf Abertawe, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Fe'i gwnaed yn Athro yn 2016 am ei chyfraniad i addysgu ac ymchwil mewn Ymarfer Celfyddyd Gain. Yn artist profiadol, yn addysgwr ac yn arweinydd academaidd, bydd Catrin yn dod â dros ddeng mlynedd ar hugain o brofiad i'r rôl.



Mae **Dr Kim Knowles** wedi'i phenodi'n Bennaeth newydd yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu. Yn Uwch Ddarlithydd mewn Ffilm Amgen ac Arbrofol, ymunodd Kim â'r adran yn 2011. Derbyniodd ei PhD o Brifysgol Caeredin yn 2007 a bu'n dysgu ar y rhaglen Astudiaethau Ffilm yno cyn dod yn Gymrawd Ymchwil Ôl-ddoethurol ar y prosiect a ariannwyd gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau 'Poetry Beyond Text: Vision, Text and Cognition' ym Mhrifysgol Caint. Ers 2008, mae hi wedi bod yn Rhaglennydd Ffilm Arbrofol ar gyfer Gŵyl Ffilm Ryngwladol Caeredin. Ar hyn o bryd mae'n gwasanaethu fel Cyfarwyddwr Ymchwil yr Adran, a bydd yn cymryd yr awenau fel Pennaeth Adran ym mis Medi.



Mae **Dr Steven Thompson** wedi'i benodi'n Bennaeth yr Adran Hanes a Hanes Cymru. Mae ei ymchwil yn canolbwyntio ar hanes Cymru a Phrydain yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif, yn enwedig hanes iechyd a meddygaeth, darpariaeth lles cymdeithasol, menywod a rhywedd, anabledd, a'r mudiad llafur. Mae wedi bod yn olygydd Llafur, cylchgrawn Cymdeithas Hanes Pobl Cymru, ers 2008. Bydd yn cymryd yr awenau fel Pennaeth yr Adran Hanes a Hanes Cymru, rôl y mae wedi'i chyflawni dros dro o'r blaen, ym mis Awst.

# Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth

## BBC Proms: The Gesualdo Six

**Sunday 30 Gorffennaf, 2yp**

**£15**

Daw'r ŵyl gerddoriaeth glasurol fwyaf blaenllaw yn y byd i Aberystwyth.

Owain Park sy'n arwain chwechawd Gesualdo ar daith trwy bum canrif o fadrigalau, o'r cyfansoddwr Tuduraidd o Loegr Thomas Weelkes (yn dathlu ei 400 mlwyddiant eleni) ac Orlando Gibbons, i'r cyfansoddwyr cyfoes Judith Weir a Sarah Rimkus.



*The Gesualdo Six. Credyd: Ash Mills*

## Musicfest

**31 Gorffennaf – 5 Awst**

**£8-£25 y cyngerdd**

Mae'n gŵyl ryngwladol ac ysgol haf flynyddol o gyngherddau a chymdeithasgarwch yn dychwelyd gyda Chyfarwyddwraig Gerddorol newydd, Catrin Finch a rhaglen adferedig eithriadol. Bydd yr ŵyl ar ei newydd wedd tra hefyd yn cadw rhinweddau gorau gwyliau blaenorol. Mae hi'n ŵyl sy'n cefnogi rhagoriaeth o ran dysgu a pherfformio ac yn cynnig cyfle unigryw i brofi gweithiau newydd a'r repertoire sefydledig.

Gweler manylion llawn am y rhaglen: [www.musicfestaberystwyth.org](www.musicfestaberystwyth.org)




**[www.aberystwythartscentre.co.uk/cy](www.aberystwythartscentre.co.uk/cy)**

ABER News

CYNHYRCHIAD HAF

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU
ABERYSTWYTH ARTS CENTRE

SUMMER PRODUCTION

# BRASSED OFF

Gan | By **PAUL ALLEN**

Yn seiliedig ar y sgript gan
based on the screenplay by
**MARK HERMAN**

Cyfarwyddwyd gan | Directed by
**RICHARD CHESHIRE**

## 4-26 Awst / August

£30 (£26) grwpiau / groups £24

7.30pm Nos Fawrth - Nos Sadwrn / Tuesday - Saturday

2.30pm Dydd Mercher + Dydd Sadwrn / Wednesday + Saturday

01970 62 32 32
aberystwythartscentre.co.uk
artstaff@aber.ac.uk